Senedd Cymru
**Cyfnewid Gwybodaeth**

# CYFOETHOGI EIN TYSTIOLAETH:

## Strategaeth i gysylltu'r Senedd yn well â'r gymuned ymchwil

senedd.cymru



# Y Senedd ac ymchwil

**Mae tystiolaeth ymchwil drylwyr a diduedd yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu effeithiol a deddfu da.**

Nod y strategaeth hon yw ehangu, dwysau ac amrywio'r dystiolaeth sydd ar gael i'r Senedd, er mwyn:

- gwella ansawdd y gwaith craffu, a
- chynyddu effaith y gwaith ymchwil.

Mae'r strategaeth yn adeiladu ar ein sylfaen gref bresennol o ymgysylltu academaidd i greu dull ehangach a mwy strategol o gyfnewid gwybodaeth.

Mae **Cyfnewid gwybodaeth** yn broses ddwyffordd sy'n **dwyn ynghyd** y **gymuned** ymchwil, Aelodau a swyddogion i rannu eu **syniadau** a'u **harbenigedd** er budd gweithgareddau seneddol ac ymchwil.

# Pam hyn?

**Rydym am i'n gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth sicrhau bod yr ystod orau a mwyaf amrywiol o dystiolaeth ymchwil ar gael i'r Senedd, i gefnogi gwaith deddfu effeithiol a chraffu'n drylwyr ar gamau gweithredu'r llywodraeth.**

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar yr egwyddor y bydd ein gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth yn:

- cyfoethogi'r **ansawdd** a chynyddu'r **amrywiaeth o dystiolaeth** a ddefnyddir gan y Senedd;
- ategu **arbenigedd a chapasiti gwasanaeth Ymchwil y Senedd**;
- helpu'r gymuned ymchwil i **ddeall y Senedd**;
- defnyddio dull strategol o **ganfod pynciau ymchwil**, yn seiliedig ar ofynion ymchwil yr Aelodau a'r pwyllgorau, a
- datblygu **tystiolaeth a dadansoddiad newydd neu wahanol**.

# Amcanion strategol

## 1 Gwerthu'r Senedd fel lle sy'n dylanwadu

Byddwn yn datblygu 'brand' ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn y Senedd, ac yn adrodd ein straeon niferus am effaith. Byddwn yn datblygu rhwydwaith o lysgenhadon o fewn y gymuned ymchwil, gan ddefnyddio interniaid PhD blaenorol, cymrodyr ac ymchwilwyr sydd wedi ymgysylltu'n llwyddiannus â'r Senedd mewn ffyrdd eraill.

## 2 Ei gwneud yn hawdd i ymchwilwyr ymgysylltu â'r Senedd

Byddwn yn datblygu pecyn o offer, hyfforddiant ac adnoddau i wella dealltwriaeth ymchwilwyr o'r Senedd a'u paratoi i gyfrannu eu harbenigedd. Byddwn yn cyfleu'r ystod lawn o gyfleoedd i ymchwilwyr ymgysylltu â'r Senedd mewn un lleoliad hawdd ei ddefnyddio (naill ai gyfrif Twitter neu borth ar-lein), ac yn datblygu cyfleoedd ymgysylltu newydd, mwy hyblyg fel erthyglau gwadd, arolygon ac adolygiadau tystiolaeth cyflym.

## 3 Amrywio'r dystiolaeth a ddefnyddir gan y Senedd

Byddwn yn creu 'rhwydwaith gwybodaeth', gyda phartneriaethau ehangach a mwy ffurfiol i gynyddu'r gronfa o arbenigwyr y mae gan y Senedd gysylltiad â hwy, gan gynnwys yn rhyngwladol. Byddwn yn manteisio ar botensial tystiolaeth o bell, yn monitro pwy sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau, ac yn canfod ffyrdd o oresgyn rhwystrau rhag cyfranogi o fewn y gymuned ymchwil.

## 4 Ehangu a dwysau'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i'r Senedd

Byddwn yn datblygu 'meysydd o ddiddordeb ymchwil' hirdymor, yn seiliedig ar ofynion ymchwil yr Aelodau, pwyllgorau a staff, er mwyn canolbwyntio adnoddau a chynllunio ymgysylltiadau fel cymrodoriaethau, comisiynau ymchwil a digwyddiadau yn strategol. Byddwn yn canfod bylchau yn y dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer craffu da, ac yn eu llenwi; yn defnyddio gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth i gadw llygad ar faterion nad ydynt ar yr agenda uniongyrchol, ac yn canfod tystiolaeth a dadansoddiadau newydd a gwahanol

## 5 Manteisio i'r eithaf ar arbenigedd, sgiliau a phrofiad mewnol

Byddwn yn rhannu ein harbenigedd, ein sgiliau a'n profiad ein hunain yn ehangach gyda seneddau eraill, myfyrwyr a staff newydd. Byddwn yn cyfrannu at y llenyddiaeth academaidd ar y Senedd ac astudiaethau seneddol, ac yn defnyddio ein cysylltiadau cyfnewid gwybodaeth ar gyfer dysgu a datblygu staff drwy gymrodoriaethau a secondiadau o chwith.

## 6 Dylunio gwell gwasanaethau seneddol, a gwerthuso effeithiolrwydd

Byddwn yn defnyddio tystiolaeth ymchwil i gefnogi'r gwaith o gynllunio a gwerthuso ein gwasanaethau seneddol (yn enwedig yn y cyfarwyddiaethau Busnes ac Ymgysylltu), gwella ein dulliau ymchwil mewnol, a defnyddio arbenigedd allanol ar gyfer adolygu gan gymheiriaid.

# Cysylltwch â ni

**If you want to find out more about our knowledge exchange programme, get in touch.**


ymchwil.senedd.cymru/cynewid-gwybodaeth

Cysylltu@senedd.cymru

@SeneddYmchwil

SeneddCymru

Senedd

Y Senedd, Bae Caerdydd, CF99 1SN